

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol The Laurels,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 4 Mawrth 2025

Dyddiad cyhoeddi: 4 Mehefin 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	21
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	22
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith.....	23
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	24

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol The Laurels, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 4 Mai 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 11 holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd chwech gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal parchus ac urddasol drwy gydol taith eu claf ym mhreactis Deintyddol The Laurels. Nododd pob aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur staff AGIC fod urddas a phreifatrwydd cleifion bob amser yn cael eu cynnal. Gwelsom dystiolaeth bod ymdrechion gweithredol ar waith i gefnogi hawliau ac i drin unigolion yn gyfartal, gyda'r staff yn cael eu hannog i gwblhau hyfforddiant i amddiffyn hawliau'r cleifion.

Roedd gwybodaeth hybu iechyd ar gael i'r cleifion mewn perthynas â rhoi'r gorau i smygu, cynnal iechyd y geg da a gofal deintyddol pediatriig. Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno eu bod wedi cael canllawiau addas ar yr hyn y dylid ei wneud yn achos haint neu argyfwng. Fodd bynnag, dywedodd un claf nad oedd y costau wedi cael eu cyfleu'n glir iddynt cyn y driniaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod prosesau cadarn ar waith er mwyn i'r holl gleifion fod yn ymwybodol o'r costau cyn i unrhyw driniaeth gael ei rhoi.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd trefniadau ar waith i alluogi bod y cyfathrebu effeithiol rhwng y cleifion a'r clinigwyr yn briodol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis mewn cyflwr da yn fewnol ac yn allanol, a'i fod yn cael ei gadw i safon dda er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd gan y practis gyfarpar addas ar y cyfan, ond gwnaethom nodi y dylai'r practis adolygu'r ddarpariaeth storio ar gyfer eiddo personol y staff.

Roedd asesiadau risg diweddar wedi cael eu cynnal ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch ac roedd gweithdrefnau cadarn ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff. Er bod y trefniadau i ddihalogi cyfarpar yn gywir fwy neu lai'n addas, gwelsom faes i'w wella mewn perthynas â phrofi'r peiriant awtoclaf.

Gwelsom fod mesurau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod argyfyngau meddygol yn cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol a bod gweithdrefnau diogelu addas ar waith i ddiogelu plant ac oedolion.

Gwelsom fod y dyfeisiau meddygol a'r cyfarpar clinigol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig wella'i weithdrefnau rheoli meddyginiaethau
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl brofion angenrheidiol ar awtoclafau eu cynnal fel mater o drefn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr amgylchedd, yr arwyddion a'r gweithdrefnau diogelwch i gyd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u hadolygu'n rheolaidd
- Roedd y staff yn asesu cleifion ac yn gwneud diagnosis o anghenion cleifion yn ddiogel.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod strwythur rheoli clir ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Gwelsom hefyd gydberthnasau gwaith da ymysg y staff ac amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis.

Gwelsom yn y cofnodion staff y gwnaethom eu hadolygu bod cydymffurfiaeth lawn â'r holl ofynion hyfforddiant gorfodol. Gwelsom fod gweithdrefnau sefydlu yn cael eu rheoli'n gywir ac mewn modd cefnogol ar gyfer aelodau newydd o staff. Roedd gweithdrefnau addas ar waith i sicrhau bod rhwymedigaethau proffesiynol y staff yn cael eu diweddar'u'n barhaus a'u bod yn gywir. Fodd bynnag, roedd rhai gwiriadau cyn cyflogi ar goll o gofnodion rhai o'r aelodau o staff mwy hirsefydlog.

Roedd polisi cwynion y practis yn cyd-fynd yn llawn â gweithdrefnau Gweithio i Wella'r GIG ac roedd yn cael ei hysbysebu i'r cleifion yn y ffolder gwybodaeth i gleifion, a oedd yn darparu pwyntiau cyswllt addas ar gyfer cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod system gadarn ar waith mewn perthynas â'r holl wiriadau cyn cyflogi
- Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith ar gyfer cyfleu unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad i adborth i'r cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwnaethom nodi amgylchedd gwaith cadarnhaol yn y practis a oedd yn seiliedig ar gydberthnasau gwaith cefnogol
- Esboniodd y staff sut roeddent yn cynnal cydberthnasau gwaith da gyda'u bwrdd iechyd lleol a gwasanaethau gofal sylfaenol eraill, gan gynnwys y meddyg teulu lleol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal ym Mhractis Deintyddol The Laurels ar gyfer yr arolygiad ym mis Mawrth 2025. Cafwyd cyfanswm o 11 ymateb gan gleifion yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr bob cwestiwn, gan olygu nad oedd 11 o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn. Ar y cyfan, roedd sylwadau'r ymatebwyr yn gadarnhaol iawn. Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno bod y gwasanaeth a ddarperir yn 'dda iawn'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol iawn. Roeddwn i'n arfer bod yn ofnus mewn practisau blaenorol ond mae staff y Laurels wedi bod mor barod eu cymwynas ac mor ofalgar ac yn esbonio'r hyn maent yn ei wneud fel fy mod i wastad yn hapus i fynd i apwyntiadau"

"Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn gyfeillgar ac o safon uchel iawn bob amser. Proffesiynol iawn"

"Mae [clinigydd] yn ddeintydd ardderchog. Gofalus, trylwyr a chymwys. Mae'n esbonio beth sy'n ofynnol a pham yn glir bob amser ac rwy'n gwneud penderfyniadau am fy nhriniaeth ar y cyd ag ef."

"Mae [clinigydd] wedi perfformio sawl triniaeth ddeintyddol i mi. Mae'n glod i'w broffesiwn"

"Rydw i mor ddiolchgar i'r practis deintyddol hwn am fy nerbyn i. Maent yn garedig ac yn gwrtais ac yn esbonio popeth yn llawn. Rwy'n teimlo fy mod mewn dwylo diogel unwaith eto"

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth foddhaol ar gael i'r cleifion am y practis yn y wybodaeth i gleifion a oedd yn yr ardal aros. Roedd enwau'r ymarferwyr a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos, ynghyd ag oriau agor a manylion cyswllt brys y practis. Roedd y ffioedd ar gyfer gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau preifat hefyd wedi'u harddangos yn glir.

Roedd gwybodaeth hybu iechyd ar gael i'r cleifion mewn perthynas â rhoi'r gorau i smygu, cynnal iechyd y geg da a gofal deintyddol pediatrig.

Nododd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod eu hiechyd y geg yn cael ei esbonio iddynt mewn modd y gallent ei ddeall. Roedd pob un o'r ymatebwyr hefyd yn cytuno eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal a oedd yn dangos urddas a pharch yn ystod eu hamser ym Mhractis Deintyddol The Laurels. Gwnaethom nodi bod y dderbynfa a'r ardaloedd aros i gleifion wedi'u huno, ond roedd wal bared yno i atal galwadau ffôn rhag cael eu clywed yn ddamweiniol. Roedd y cleifion hefyd yn cael cynnig siarad â'r staff i ffwrdd o ardal y dderbynfa, pe byddai angen. Roedd drysau solet ar ddeintyddfeydd y practis, a oedd yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau. Roedd gwydr barugog yn bresennol ar ffenestri'r llawr gwaelod. Roedd yr holl fesurau hyn yn golygu na allai rhyngweithiadau rhwng y staff a'r cleifion gael eu clywed yn ddamweiniol a bod preifatrwydd y cleifion yn cael ei gynnal.

Roedd cytundeb cyfrinachedd ar waith yn y practis a oedd wedi'i lofnodi gan bob aelod o'r staff ac yn nodi disgwyliadau'r practis i sicrhau preifatrwydd gwybodaeth am gleifion. Gwelsom fod y Naw Egwyddor a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn y dderbynfa.

Nododd pob aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur staff AGIC fod urddas a phreifatrwydd cleifion bob amser yn cael eu cynnal. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad a bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth a oedd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth am y risgiau a'r manteision. Cadarnhaodd cleifion ac ymatebwyr i'r holiadur staff bod cleifion yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys yn y penderfyniadau am eu triniaeth. Fodd bynnag, dywedodd un claf nad oedd y costau wedi cael eu cyfleu'n glir iddynt cyn y driniaeth.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod prosesau cadarn ar waith er mwyn i'r holl gleifion fod yn ymwybodol o'r costau cyn i unrhyw driniaeth gael ei rhoi.

Nododd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon ar ôl triniaeth. Roedd pob un o'r cleifion hefyd yn

cytuno eu bod wedi cael canllawiau addas ar yr hyn y dylid ei wneud yn achos haint neu argyfwng.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod proses rheoli apwyntiadau addas ar waith i ddefnyddio amser yr ymarferwyr yn briodol. Byddai cleifion yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb ar ôl eu hapwyntiadau. Dywedodd y staff wrthym mai anaml y byddent yn rhedeg yn hwyr o ran apwyntiadau. Pe bai apwyntiadau'n mynd y tu hwnt i'r amser a drefnwyd, byddai'r clinigwyr yn ffonio'r dderbynfa i roi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi. Byddai'r cleifion hefyd yn cael gwybod am oedi wrth gyrraedd ac yn cael cynnig apwyntiadau amgen lle y gofynnir am hynny.

Gwelsom fod system brysbennu cleifion dros y ffôn briodol ar waith i sicrhau bod y rheini yr oedd angen gofal brys arnynt fwyaf yn cael eu blaenoriaethu. Gwelsom fod slotiau yn y dyddiadur bob dydd ar gyfer apwyntiadau brys, a dywedodd y staff wrthym na fyddai unrhyw glaf yn gorfod aros mwy na 24 awr i gael ei weld mewn argyfwng. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC (9/11) y byddent yn gwybod sut i gael gfael ar ofal deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Dywedodd y staff wrthym fod gan bob clinigydd amseroedd aros gwahanol rhwng apwyntiadau ond nad oedd unrhyw glaf yn aros mwy na chwe wythnos rhwng triniaethau. Lle y bo'n bosibl, roedd apwyntiadau yn cael eu trefnu'n unol ag argaeledd y cleifion. Roedd system ar waith i gleifion pediatriig gael apwyntiadau ar amser a oedd fwyaf addas ar gyfer eu hanghenion addysgol. Nododd y rhai a ymatebodd i arolwg AGIC i gleifion eu bod wedi ei chael hi'n 'hawdd iawn' (9/11) neu'n 'eithaf hawdd' (2/11) cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod trefniadau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau cyfathrebu rhwng y clinigwyr a'r cleifion. Roedd Language Line yn cael ei ddefnyddio, lle y bo angen, i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Roedd dogfennau ar gael mewn fformatau gwahanol, megis fformat hawdd ei ddeall, ac roedd dogfennau mwy arbenigol yn cael eu darparu ar gais. Roedd sbectolau ar gael hefyd i helpu'r cleifion i weld ffontiau llai o faint mewn dogfennau. Gwelsom y byddai sgiliau iaith yn cael eu nodi fel nodwedd fanteisiol yn ystod recriwtio a chynllunio'r gweithlu.

Gwelsom dystiolaeth gref fod y practis yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd dogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, lle y bo'n bosibl. Dywedodd y staff wrthym fod y bwrdd iechyd yn eu helpu i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y

Gymraeg ar waith. Gwelsom hefyd y gellid cynnig triniaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, pe bai angen. Nododd y staff fod cleifion yn aml yn dweud eu bod yn mwynhau cyfathrebu ag ymarferwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom dystiolaeth bod ymdrechion gweithredol ar waith i gefnogi hawliau ac i drin unigolion yn gyfartal. Roedd polisïau priodol yn nodi sut roedd y practis yn cefnogi hawliau'r cleifion a'r staff. Gwelsom fod y staff yn cael eu hannog i gwblhau hyfforddiant penodol er mwyn diogelu hawliau'r cleifion, yn ogystal â hyfforddiant ar atal achosion o aflonyddu neu wahaniaethu. Gwelsom fod hysbysiadau dim goddefgarwch mewn perthynas ag aflonyddu i'w gweld o amgylch y practis a bod manylion yn y llyfryn gwybodaeth i gleifion.

Rhoddodd y staff enghreifftiau lle roedd newidiadau wedi'u gwneud i'r amgylchedd fel addasiad rhesymol ar gyfer cleifion a chyflogeion. Roedd y rhain yn cynnwys claf a oedd angen triniaethau mewn deintyddfa ar y llawr gwaelod a defnydd o ramp, yn ogystal â nyrs a gafodd ddyletswyddau gweinyddol i'w gwneud tra'r oedd hi'n feichiog. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod yr adeilad yn hygyrch.

Roedd hawliau cleifion yn cael eu cynnal ymhellach drwy eu galluogi i ddewis y rhagenwau, yr enwau a'r rhywedd a ffefrir ganddynt ar eu cofnodion. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi wynebu unrhyw fath o wahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod y practis mewn cyflwr da yn fewnol ac yn allanol, a'i fod yn cael ei gadw i safon dda er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur staff AGIC fod yr amgylchedd yn briodol i sicrhau bod cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt. Dywedodd pob un a ymatebodd hefyd fod ganddynt y cyfleusterau priodol i gyflawni eu rolau. Roedd y practis wedi'i drefnu dros ddau lawr, gyda thair deintyddfa a dwy ardal aros gyda swm rhesymol o seddau i gleifion. Gorffennwyd y mwyafrif o'r practis i safon uchel, ond dywedodd y staff wrthym fod disgwyl i ardaloedd nad ydynt yn wynebu cleifion gael eu hadnewyddu maes o law.

Clywsom fod y llinellau ffôn yn caniatáu cyfathrebu effeithiol rhwng y cleifion a'r staff. Er bod digon o le ar gael i'r staff newid yn breifat, gwnaethom nodi nad oedd lle storio dynodedig ar gyfer eiddo personol y staff.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r ddarpariaeth i storio eiddo personol y staff.

Gwelsom fod toiledau'r staff a thoiledau'r cleifion yn lân ac yn cynnwys digon o gyfarpar. Nid oedd toiled ar gael i'r cleifion hynny gyda symudedd cyfyngedig, ond roedd hyn wedi'i egluro yn y canllaw i gleifion ac roedd cyfleusterau cyhoeddus addas yn agos at y practis wedi'u hysbysebu.

Roedd cyfarpar deintyddol y practis mewn cyflwr da ac roedd digon o eitemau ar gael i allu eu dihalogi'n effeithiol rhwng defnyddiau. Gwelsom hefyd fod eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol.

Roedd polisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff. Roedd asesiadau risg diweddar wedi cael eu cynnal ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch. Gwelsom fod polisïau ar waith ar gyfer sicrhau bod y safle'n parhau i fod yn addas at y diben o hyd ac ar gyfer rheoli risgiau yn briodol. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau wedi cael eu cynnal er mwyn sicrhau diogelwch nwy a thrydan gan gontractwyr. Roedd Profion Offer Cludadwy hefyd wedi cael eu cynnal yn ystod y 12 mis diwethaf.

Wrth edrych ar y cyfarpar diogelwch tân a'r wybodaeth am ddiogelwch tân, gwelsom fod trefniadau cadarn a chynhwysfawr ar waith. Roedd y trefniadau hyn

yn cynnwys cynnal a chadw'r cyfarpar diogelwch tân yn rheolaidd ac arddangos arwyddion diogelwch tân a dim smygu yn glir.

Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr y practis a phoster gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael eu harddangos yn yr ardal i staff.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau priodol ar waith i gynnal lefel dda o lendid ac amgylchedd gwaith diogel. Gwelsom fod amserlenni glanhau ar waith ac roedd pob aelod o'r staff a ymatebodd i'r holiadur a ddosbarthwyd gan AGIC yn dweud bod amserlenni glanhau yn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac effeithiol yn y practis. Gwelsom fod yr holl gyfarpar a'r amgylchedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n foddhaol fel bod modd eu glanhau a'u dihalogi'n effeithiol. Cafodd hyn ei gefnogi gan ymatebwyr i'r arolwg staff a ddywedodd wrthym fod amgylchedd y practis yn caniatáu arferion rheoli heintiau effeithiol. Cadarnhaodd y cofnodion hyfforddiant y gwnaethom edrych arnynt fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar brosesau dihalogi cywir.

Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gael i bob aelod o'r staff ac roedd trefniadau priodol ar waith i gyfyngu ar y risg o niwed o ganlyniad i anafiadau a achosir gan offer miniog. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael fel mater o drefn i bob aelod o'r staff, ac roedd yr holl weithdrefnau ac arwyddion mewn perthynas â hylendid dwylo yn addas. Roedd y trefniadau hyn yn golygu bod modd darparu gofal diogel i'r cleifion gan sicrhau diogelwch y staff ar yr un pryd. Dywedodd yr ymatebwyr i'r holiadur staff fod digon o gyfarpar diogelu personol ar gael iddynt er mwyn gallu gofalu am gleifion unigol yn ddiogel.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y practis yn 'lân iawn'. Nododd pob un o'r ymatebwyr hefyd fod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn yn briodol, dywedodd un claf nad oedd yn gwybod.

Roedd cynllun yr ystafell ddihalogi ddynodedig yn addas i sterileiddio cyfarpar deintyddol aml dro mewn modd trefnus a diogel. Gwnaethom nodi bod gwiriadau'n cael eu cynnal ar gyfarpar ddwywaith y dydd a bod rhestrau gwirio deintyddfeydd dyddiol yn cael eu cwblhau. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi nad oedd profion ar bwysedd yr awtoclafau yn cael eu gwirio'n rheolaidd ar y cofnodydd data ac ni welsom brofion protein mynych yn cael eu cynnal. Cynghorwyd bod y profion hyn yn cael eu hychwanegu at restrau gwirio dihalogi'r practis. Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 yn argymhell cynnal y profion hyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod peiriannau awtocaf yn ddiogel er mwyn i gyfarpar deintyddol aml dro gael eu sterileiddio'n gywir.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl brofion ar awtoclafau eu cynnal yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Gwelsom fod y broses ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn foddhaol. Roedd holl wastraff y practis yn cael ei storio a'i waredu'n gywir drwy gcontract gwaredu gwastraff addas.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisi addas ar waith ar gyfer trin, storio a defnyddio meddyginiaethau yn ddiogel. Gwelsom fod meddyginiaethau brys yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio yn cael eu gwaredu mewn fferyllfa leol, gan gynnwys y rhai a restrwyd fel cyffuriau a reolir o dan ddeddfwriaeth camddefnyddio cyffuriau. Dywedodd y staff wrthym nad oeddent yn cael unrhyw dderbynebaw wrth waredu'r cyffuriau a reolir hyn ac ni welsom unrhyw dystiolaeth ar ffeil eu bod yn cael eu gwaredu.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal llwybr archwilio cadarn wrth waredu meddyginiaethau, yn enwedig cyffuriau a reolir.

Roedd yr oergell a ddefnyddir i storio meddyginiaethau mewn lleoliad addas ac roeddent yn cael eu cadw'n lân ac yn drefnus. Fodd bynnag, ni welsom gofnod bod unrhyw wiriadau tymheredd yn cael eu cofnodi'n addas. Cafodd y mater hwn ei ddatrys ar ddiwrnod yr arolygiad, gyda'r camau gweithredu a gymerwyd wedi'u hamlinellu yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.

Gwelsom fod mesurau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod argyfyngau meddygol yn cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd cofnodion y staff yn dangos bod cymwysterau addas ym maes adfywio cardiopwlmonaidd ac roedd nifer boddhaol wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Wrth archwilio'r cyfarpar brys, gwelsom fod yr holl eitemau yn bresennol, yn hawdd cael gafael arnynt ac o fewn eu dyddiadau defnyddio. Gwnaethom nodi bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r holl gyfarpar brys.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gweithdrefnau diogelu addas a chyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion. Roedd y gweithdrefnau yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau cymorth lleol, yn nodi arweinydd diogelu penodedig ac yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan. Roedd unrhyw ddiweddariadau i'r gweithdrefnau yn cael eu rhannu â'r practis drwy'r bwrdd iechyd ac roedd unrhyw newidiadau yn cael eu rhannu â'r staff drwy adnodd cydymffurfiaeth ar-lein ac yn ystod cyfarfodydd tîm.

Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant addas ar ddiogelu plant ac oedolion. Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn deall y gweithdrefnau diogelu gan ddweud y byddent yn gwybod sut i godi pryder ac y byddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i wneud hynny.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau meddygol a'r cyfarpar clinigol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Gwelsom fod cyfarpar deintyddol aml dro yn cael ei ddefnyddio mewn modd sy'n hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus wrth ddefnyddio'r cyfarpar a dywedodd pob un a ymatebodd i'r holiadur staff fod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar i gyflawni eu gwaith. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer gwasanaethu'r holl gyfarpar ac ar gyfer ymateb yn gyflym i fethiant system cyfarpar.

Gwelsom fod ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis yn gyfredol ac yn gynhwysfawr. Nododd y clinigwyr fod y cleifion yn cael eu hysbysu'n briodol am risgiau a manteision ymbelydredd a gwelsom fod cysylltiadau ag ymbelydredd yn cael eu nodi'n gywir yng nghofnodion y cleifion. Nodwyd gennym ei bod hi'n hawdd cael gafael ar y rheolau lleol ym mhob deintyddfa. Roedd y cofnodion hyfforddiant a welsom yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar gyfer eu rolau.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion ac yn gwneud diagnosis o anghenion cleifion yn ddiogel. Roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod triniaethau yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol, ac yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol.

Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod pryd i geisio cyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i gofnodi bod y cleifion yn deall y gweithdrefnau llawfeddygol ac yn cydsynio iddynt. Gwelsom ddefnydd priodol o restrau gwirio clinigol i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o naw claf yn ystod ein harolygiad. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw ar system ddigidol ddiogel, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Yn gyffredinol, roedd y cofnodion hyn yn cynnig

cofnod cyfredol a chyflawn o'r gofal a oedd yn cael ei ddarparu i'r cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella'r meysydd canlynol:

- Nid oedd yr opsiynau trin i bump o'r naw claf wedi'u cofnodi
- Nid oedd gradd ansawdd clinigol y radiograffau na'r cyfiawnhad amdanynt wedi'u cofnodi mewn chwech o'r naw cofnod y gwnaethom edrych arnynt
- Ni welsom gyfiawnhad cyson o'r broses rhagnodi gwrthfotigau'n cael ei chofnodi yn y cofnodion perthnasol y gwnaethom edrych arnynt.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cyflawn yn cael eu cadw ar gyfer y cleifion yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU bob amser.

Gwelsom nad oedd dewisiadau iaith y cleifion nac unrhyw gamau a gymerwyd i ymateb i'r dewisiadau hyn wedi'u cofnodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod anghenion iaith a chyfathrebu'r cleifion yn cael eu cofnodi.

Cadarnhaodd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod eu hanes meddygol yn cael ei wirio cyn unrhyw driniaeth. Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno eu bod wedi rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth a bod eu triniaethau wedi cael eu hesbonio iddynt mewn ffordd y gallent ei deall.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y clinigwyr yn darparu gwasanaeth addas i ddiwallu anghenion eu cleifion ar safle boddhaol. Roedd y cleifion yn symud yn effeithlon ar hyd llwybrau trin mewnol ac allanol. Gwelsom fod y llwybrau trin gwahanol hyn yn cael eu defnyddio'n effeithiol o ganlyniad i gymysgedd priodol o sgiliau a phroses trefnu apwyntiadau a brysbennu gadarn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Nodwyd gennym fod strwythur rheoli clir ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Esboniodd perchennog y practis ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi i gyflawni ei rôl arwain yn effeithiol. Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob tri mis ac roedd pob aelod o'r staff yn bresennol ynddynt. Wrth adolygu cofnodion y cyfarfodydd staff, gwnaethom nodi trafodaethau addas ynghylch rheoli gwastraff, cofnodion cleifion a rhoi gwybod am salwch. Gwelsom fod y practis wedi gwneud cais i gymryd rhan yn y Matrics Aeddfedrwydd er Deintyddiaeth ym mis Ionawr 2025 a'u fod yn aros am ddyddiad dechrau.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig, yn wybodus ac yn cefnogi ei gilydd. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt hyder yn y rheolwyr ac y byddent yn gwybod â phwy i siarad pe bai angen help neu gymorth arnynt.

Gwelsom fod datganiad o ddiben y practis yn gyfredol ac ar gael i gleifion. Roedd adnodd cydymffurfiaeth ar-lein yn cael ei ddefnyddio i nodi, cofnodi a rheoli'r risgiau, y materion a'r ffactorau lliniaru.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom gydberthnasau gwaith da ymysg y staff ac amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis.

Roedd system briodol ar waith i sicrhau bod nifer addas o staff cymwysedig yn gweithio ar unrhyw adeg benodol. Gwnaethom edrych ar 5 o'r 13 o gofnodion staff, a gwelsom gydymffurfiaeth lawn â'r holl ofynion o ran hyfforddiant gorfodol. Cefnogwyd hyn gan yr ymatebwyr i'r holiadur staff a ddosbarthwyd gan AGIC a ddywedodd eu bod yn cael cynnig hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rolau. Roedd system ddigidol addas a threfniadau cymorth cadarn ar waith i fonitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant a galluogi'r staff i gael hyfforddiant hyd at lefel briodol ar gyfer eu rolau. Roedd y staff yn cael eu cefnogi drwy gyfarfodydd un i un â rheolwr y practis a rhoddwyd amser iddynt gwblhau eu hyfforddiant.

Gwelsom fod gweithdrefn gadarn ar waith i sicrhau nad oedd y defnydd o staff asiantaeth yn cael effaith ar ofal cleifion. Roedd y gwiriadau ar staff asiantaeth yn addas ac yn fynych.

Roedd y dystiolaeth a welsom yn dangos bod gweithdrefnau sefydlu yn cael eu rheoli'n gywir ac mewn modd cefnogol ar gyfer aelodau newydd o staff. Esboniodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad y byddent yn gwybod beth i'w wneud a phwy i siarad â nhw pe byddai ganddynt bryder am y ffordd roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu, triniaethau neu drefniadau rheoli. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i roi arweiniad ar sut y gall y staff godi pryderon.

Roedd gweithdrefnau addas ar waith ar y cyfan i sicrhau bod rhwymedigaethau proffesiynol y staff yn cael eu diweddar'u barhaus a'u bod yn gywir. Roedd gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, dogfennaeth sgrinio iechyd ac yswiriant indemniad proffesiynol wedi'u cofnodi. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, ni welsom fod unrhyw wiriadau geirda cyn cyflogi wedi'u storio ar ffeil yng nghofnodion tri o'r aelodau staff hŷn. Roedd hyn yn golygu bod risg y gallai'r cleifion ddod i gysylltiad â staff nad oedd gwiriadau addas o'u cymeriad wedi dod i law. Gwnaethom nodi bod gwiriadau'r holl aelodau o staff newydd eu penodi wedi'u cofnodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod system gadarn ar waith mewn perthynas â'r holl wiriadau cyn cyflogi.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd system briodol ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Gwelsom fod blwch awgrymiadau yn yr ystafell aros a dywedodd y staff wrthym fod adborth yn cael ei adolygu'n fisol gan reolwr y practis. Er i ni gael gwybod bod newidiadau wedi'u gwneud i wasanaethau o ganlyniad i adborth, ni welsom fod dull gweithredol o gyfathrebu unrhyw newidiadau i gleifion. Awgrymwyd y byddai cael bwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni' i gyfathrebu unrhyw ymatebion i adborth wrth y dderbynfa yn fuddiol.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith ar gyfer cyfleu unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad i adborth i'r cleifion.

Roedd y polisi cwynion yn cyd-fynd yn llawn â gweithdrefnau Gweithio i Wella'r GIG ac roedd gwybodaeth amdano ar gael yn y ffolder gwybodaeth i gleifion. Roedd y weithdrefn gwyno i gleifion yn cynnig pwynt cyswllt wrth wneud cwyn. Byddai cwynion llafar yn cael eu cofnodi yn y dderbynfa a'u rhannu â'r pwynt cyswllt ar gyfer cwynion mewn modd amserol i'w datrys. Roedd y dull o uwchgyfeirio cwyn wedi'i nodi yn y daflen gwyno i gleifion, gan gynnwys manylion cyswllt AGIC a'r gwasanaeth eirioli dros gleifion, Llais. Gwnaethom edrych ar sampl o gwynion a gwnaethom nodi cydymffurfiaeth â pholisïau'r practis ac nid oedd themâu cyffredin i'w gweld.

Dangosodd yr ymatebwyr i holiadur staff AGIC ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau proffesiynol mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Dywedodd yr ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o'u rôl fel rhan o'r Ddyletswydd Gonestrwydd ac yn ei deall. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd eu bod yn deall eu rôl o ran cyflawni'r Ddyletswydd a bod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod i gleifion pan oedd rhywbeth wedi mynd o'i le. Er nad oedd cofnodion o unrhyw gwynion diweddar na digwyddiadau yn ymwneud â'r Ddyletswydd Gonestrwydd, cawsom sicrwydd fod y prosesau a oedd ar waith yn foddhaol.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod archwiliadau clinigol i roi'r gorau i smygu mewn ffordd integredig, cyffuriau gwrthficrobaidd, cadw cofnodion a hylendid dwylo yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Gwelsom fod archwiliadau mewnol datblygedig yn cael eu cynnal i reoli heintiau. Fodd bynnag, ni welsom fod y practis yn manteisio ar yr adnoddau gwella ansawdd sydd ar gael iddo drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar gyfer rheoli heintiau. Yn ogystal, ni welsom fod archwiliadau graddio ansawdd ymbelydredd ïoneiddio wedi cael eu cynnal.

Dylai'r rheolwr cofrestredig ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael iddo mewn perthynas â gwelliannau ansawdd a rhaid iddo ddechrau cynnal archwiliadau graddio ansawdd ymbelydredd ïoneiddio.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Esboniodd y staff sut roeddent yn cynnal cydberthnasau gwaith da gyda'u bwrdd iechyd lleol a gwasanaethau gofal sylfaenol eraill, gan gynnwys y meddyg teulu lleol. Gwelsom fod proses briodol ar waith i olrhain unrhyw atgyfeiriadau a wnaed at ddarparwyr gwasanaethau eraill.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd gwiriadau o dymheredd oergelloedd yn cael eu cofnodi.	Gallai storio meddyginiaethau mewn oergell nad yw ar y tymheredd cywir olygu nad oes modd eu defnyddio neu ddod â niwed i'r claf os cânt eu defnyddio.	Uwchgyfeiriodd AGIC hyn i reolwr y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.	Sefydlwyd gweithdrefn newydd gan reolwr y practis i sicrhau bod staff nyrsio'n cynnal gwiriadau dyddiol ar dymereddau'r oergell. Cafodd copïau o'r rhestr wirio a'r weithdrefn ddyddiol newydd eu gweld gan AGIC ac roeddent yn briodol.

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol The Laurels

Dyddiad yr arolygiad: 4 Mawrth 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ychwanegol yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol The Laurels

Dyddiad yr arolygiad: 4 Mawrth 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nododd un claf na chafodd y costau eu cyfleu'n glir iddo cyn dechrau triniaeth.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod prosesau cadarn ar waith er mwyn i'r holl gleifion fod yn ymwybodol o'r costau cyn i unrhyw driniaeth gael ei rhoi.	Rheoliad 13 (1) (a)	Byddwn yn adolygu'r broses hon o drafod costau a chynllunio triniaethau. Gan ychwanegu cynlluniau trin drwy e-bost fel mater o drefn o bosibl, ochr yn ochr â rhai ysgrifenedig.	Andrew Williams	Ar unwaith, ond gydag adolygiadau parhaus yn dilyn cyfarfodydd cynnydd.
2. Gwnaethom nodi nad oedd lle storio dynodedig ar gyfer eiddo personol y staff.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r ddarpariaeth i storio eiddo personol y staff.	Rheoliad 22 (3) (b)	Byddwn yn asesu'r safle ar gyfer y lleoliad gorau, a loceri o faint priodol ar gyfer y staff.	Andrew Williams	6 mis
3. Gwnaethom sylwi nad oedd profion ar	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff	Rheoliad 13 (3) (b)	Dechreuodd y profion ar bwysedd ar	Andrew Williams	3 mis

	bwysedd yr awtoclafau yn cael eu gwirio'n rheolaidd ar y cofnodydd data ac ni welsom brofion protein mynych yn cael eu cynnal. Cyngorwyd bod y profion hyn yn cael eu hychwanegu at restrau gwirio dihalogi'r practis.	yr holl brofion ar awtoclafau eu cynnal yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.		unwaith. Bydd profion protein yn cael eu hychwanegu ar ôl prynu'r rhai cywir a'u mewnosod yn briodol i logiau dihalogi gyda hyfforddiant priodol.	
4.	Gwelsom fod meddyginiaethau brys yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio yn cael eu gwaredu mewn fferyllfa leol, gan gynnwys y rhai a restrwyd fel cyffuriau a reolir o dan ddeddfwriaeth camddefnyddio cyffuriau. Dywedodd y staff wrthym nad oeddent yn cael unrhyw dderbynebau	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal llwybr archwilio cadarn wrth waredu meddyginiaethau, yn enwedig cyffuriau a reolir.	Rheoliad 13 (4) (a)	Y tro nesaf y bydd angen gwaredu meddyginiaethau yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio, byddaf yn cysylltu â'r fferyllfa am y gwaith papur priodol, byddaf hefyd yn ymholi am y broses drwy ein cludwr gwastraff clinigol.	Andrew Williams Ar unwaith/ treiglol fel y bo'n ofynnol.

	wrth waredu'r cyffuriau a reolir hyn ac ni welsom unrhyw dystiolaeth ar ffeil eu bod yn cael eu gwaredu.					
5.	Gwnaethom nodi'r meysydd canlynol yr oedd angen eu gwella yn y cofnodion cleifion: - Nid oedd yr opsiynau trin i bump o'r naw claf wedi'u cofnodi - Nid oedd gradd ansawdd clinigol y radiograffau na'r cyfiawnhad amdanynt wedi'u cofnodi mewn chwech o'r naw cofnod y gwnaethom edrych arnynt - Ni welsom gyfiawnhad cyson o'r broses rhagnodi gwrthfotigau'n cael ei	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cyflawn yn cael eu cadw ar gyfer y cleifion yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU bob amser.	Rheoliad 20(1)	Bydd cyfarfod adolygu'r broses o wneud nodiadau'n cael ei gynnal â'r holl staff clinigol i ymdrin â'r meysydd pryder a gafodd eu crybwyll a'r gwelliannau a roddwyd ar waith.	Andrew Williams	3 mis

	chofnodi yn y cofnodion perthnasol y gwnaethom edrych arnynt.					
6.	Gwelsom nad oedd dewisiadau iaith y cleifion nac unrhyw gamau a gymerwyd i ymateb i'r dewisiadau hyn wedi'u cofnodi.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod anghenion iaith a chyfathrebu'r cleifion yn cael eu cofnodi.	Rheoliad 13 (1) (a)	Ffordd anodd barhaus o reoli. Byddwn yn ceisio cyngor pellach ar y broses hon gan bractisau eraill y mae gennyf gysylltiadau â nhw er mwyn cadarnhau patrwm gwaith gwell.	Andrew Williams	3 mis
7.	Nid oedd cofnodion tri o'r aelodau o staff hŷn a welsom yn ystod yr arolygiad yn cynnwys unrhyw wiriadau geirda cyn cyflogi. Roedd hyn yn golygu bod risg y gallai'r cleifion ddod i gysylltiad â staff nad oedd gwiriadau addas o'u cymeriad wedi dod i law. Gwnaethom	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod system gadarn ar waith mewn perthynas â'r holl wiriadau cyn cyflogi.	Rheoliad 18(1)	Mae'r holl staff wedi cael gwiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn aml wedi cael argymhellion ar lafar. Lle nad oedd modd cael geirdaon, weithiau oherwydd diffyg ymateb, bydd rhestr wirio ysgrifenedig yn cael ei	Andrew Williams	Ar unwaith

	nodi bod gwiriadau'r holl aelodau o staff newydd eu penodi wedi'u cofnodi.			hychwanegu at y llwybr adnoddau dynol.		
8.	Er i ni gael gwybod bod newidiadau wedi'u gwneud i wasanaethau o ganlyniad i adborth, ni welsom fod dull gweithredol o gyfathrebu unrhyw newidiadau i gleifion. Awgrymwyd y byddai cael bwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni' i gyfathrebu unrhyw ymatebion i adborth wrth y dderbynfa yn fuddiol.	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith ar gyfer cyfleu unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad i adborth i'r cleifion.	Rheoliad 16 (1) (a)	Y tro nesaf y byddwn yn gwneud newidiadau i brosesau neu leoliadau o ganlyniad i adborth cleifion, byddwn yn postio'r rhain ar hysbysfwrdd yr ystafell aros.	Andrew Williams	Pan fydd gweithred yn digwydd
9.	Ni welsom y practis yn manteisio ar yr adnoddau gwella ansawdd sydd ar gael iddo drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ar gyfer rheoli heintiau. Yn ogystal,	Dylai'r rheolwr cofrestredig ddefnyddio'r cymorth sydd ar gael iddo mewn perthynas â gwelliannau ansawdd a rhaid iddo ddechrau cynnal archwiliadau graddio	Rheoliad 16 (1) (a)	Rydym wedi gwneud cais am Fatrics aeddfedrwydd, heb ymateb. Byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn nes ymlaen yn y flwyddyn pan fydd gennym	Andrew Williams	6 mis

ni welsom fod archwiliadau graddio ansawdd ymbelydredd ïoneiddio wedi cael eu cynnal.	ansawdd ymbelydredd ïoneiddio.		gydlynnydd practis yn dechrau a bydd staff yn dychwelyd o gyfnod mamolaeth. Byddwn yn adolygu ein harchwiliad graddio ïoneiddio presennol.	Andrew Williams	3 mis
---	--------------------------------	--	---	-----------------	-------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Andrew Williams

Teitl swydd: Prif Ddeintydd

Dyddiad: 7/5/25